











Welsh Conservatives



# LOCAL GOVERNMENT ELECTIONS

# MANIFESTO

SAFER ▪ GREENER ▪ CLEANER ▪ SAFER ▪ GREENER ▪ CLEANER ▪ SAFER ▪ GREENER ▪ CLEANER

Promoted by Matt Lane on behalf of the Welsh Conservative Party (both at) 4 Penlline Road, Whitchurch, Cardiff, CF14 2XS
Printed by Newport Printing Company Ltd, Esperanto Way, Orb Industrial Estate, Newport, South Wales NP19 0RD



# FOREWORD

This manifesto sets out how Welsh Conservatives will improve the quality of life, local services and environment for communities right across Wales. Our policies are made in our local communities, for our local communities. We support better local services, fantastic local schools in modern, well-equipped buildings, safer communities, greener and cleaner local environments and affordable Council Taxes.

It is our responsibility to look after people – our families, our elderly, and our vulnerable people and support our under-valued carers. Our social services networks must be there to help families when they need it.

There have been years of under-investment in social and affordable housing in Wales. Housing is a right for everyone. If we are to build strong communities then we must provide safe, affordable homes.

Welsh Conservatives are determined to protect our local environments. We support weekly bin collections and ambitious targets for recycling. Clean communities are safe communities. We are passionate about protecting our green spaces.

At the heart of every thriving community are thriving local services – our Post Offices, GP surgeries and excellent schools. Welsh Conservatives will be fighting to keep our services local.

People are fed up with paying higher Council Tax but not seeing any benefits. Welsh Conservatives are committed to delivering value for money. But building strong communities means working together. We must live up to our social responsibilities if we are to deliver for Wales.

Labour and Plaid Cymru have let us all down in Wales. Despite millions of pounds of Council Tax-payers money little seems to change. Their response to everything is a state solution – a one-size-fits-all policy. It doesn’t have to be this way. Welsh Conservatives believe that solutions are found within our communities where people are best placed to see what is wrong and work to fix it.

Welsh Conservatives are prepared to live up to our social responsibilities. The Welsh Conservative Party is campaigning for change in local authorities across Wales.

Working with the Welsh Conservatives can build our communities.

2008 could be a year of change.

Safer, cleaner, greener – together.



SAFER ▪ GREENER ▪ CLEANER



Welsh Conservatives

# SAFER, GREENER, CLEANER

At the heart of our local election campaign this year is the delivery of efficient, cost-effective local services and pride in our communities. Welsh Conservatives want to improve the quality of life for everyone and local councils have a leading role to play in doing just that.

But it's people, not governments, who have the biggest role to play. We believe in social responsibility, in trusting people to do the right thing and in giving them real control over their lives. After a decade of top-down central control from Labour, it's time to recognise that we can only tackle the large social challenges we face if people take a real sense of pride in, and responsibility for, their local community - playing an active part in making it a better place to live.

Each one of us in every community in Wales must ask the question

'What has Labour ever done for us?'

Welsh Conservatives can tell you -

- higher Council Taxes
- cuts to local services
- school closures
- crumbling classrooms

Labour has let us all down in Wales.

They have held us back and they have taken us for granted..

## 2008 can be a year of change

On May 1st, people will have the chance to vote for change and to make a real difference to their quality of life.

The Welsh Conservative Party's message is simple:

Let us build Safer, Greener and Cleaner Communities Together.



# VALUE FOR MONEY

## Council Tax

Labour has undermined public trust in Council Tax. It has become the Labour Government's ultimate stealth tax.

The average household is now paying £500 a year more in Council Tax than 10 years ago.

Labour's botched Council Tax revaluation has sent bills through the roof.

Pensioners and families on low or fixed incomes have been hit hardest.

A dire funding settlement from the Labour/Plaid Welsh Assembly Government means local authorities are now forced to decide between big Council Tax rises or local service cuts. All too often they choose both.

After 10 years of such big Council Tax rises, people are asking: "Where has all our money gone?"

Labour Councils cost you more.... Conservatives run more efficient councils.

### 2008 can be a year of change

Welsh Conservatives will re-introduce fairness to the Council Tax system.

We will campaign for a future Welsh Conservative Assembly Government which will restore Council Tax to sustainable levels through proper financial support for local authorities.

We will ensure councils have the resources to deliver effective, efficient local services without the need to make cuts or inflict massive Council Tax rises on hard pressed families.

We will provide proper support for pensioners and families on low or fixed incomes.

Welsh Conservative Councillors will work with a future Welsh Conservative Assembly Government to deliver Council Tax discounts of £100 per pensioner household.



# SOCIAL SERVICES

## Supporting people

Under Labour, social services have been starved of resources.

Budget cuts mean councils are forced to slash services. This harms vulnerable people, and undermines staff morale and performance.

By ruling out choice, Labour has forced service users and families into rigid regimes restricting their independence and delivering poor value for money.

## 2008 can be a year of change

Welsh Conservatives will improve the efficiency of social services to deliver better value for money.

We will promote independence and choice. People should have control over where and how they live and have support as and when they need it.

We will protect vulnerable children and adults and ensure real support for their families when they need it.

We will support carers and provide them with all the information they need to look after their loved ones.



# HOUSING – A RIGHT FOR EVERYONE

## People and places

Labour has consistently failed to invest enough money in social and affordable housing.

The money invested, in real terms, is lower than under the last Conservative Government – over 18% of all homes in the private sector are considered unfit and below the Assembly's Quality Standard.

Social housing funding has been substantially cut by Labour, leading to a lack of affordable homes in many parts of Wales – since 1996 only 10,818 homes have been built in the social housing sector.

Labour's Home Information Packs have forced up the cost of moving house, while unsustainable price increases are stopping many young people and families from getting a foot on the property ladder – in November 2007 the average house price in Wales was £144,895, that's a massive £80,000 or 60% increase in just seven years.

Under Labour fewer affordable homes are being built while the Government's failure to tackle high levels of homelessness shames our country – in 2006-07 over 6,800 households were accepted as homeless by local authorities.

## 2008 can be a year of change

Welsh Conservative Councillors will ensure that the scandal of social housing remaining empty for long periods is ended.

We will work with councils to ensure they have flexibility over planning to release more suitable land for housing developments.

We will allow communities to build new houses according to local need and provide more money for social housing projects.

We will work with developers to ensure all new social housing projects are environmentally friendly.



# VOTE BLUE, GO GREEN

## Your environment

The environment in Wales has suffered from ten years of neglect under Labour. Their attitude to tackling Climate Change, the greatest challenge that affects us all, has been astonishing.

Our recycling record is among the worst in Europe and Labour has displayed its complacency in the way it is tackling waste disposal in Wales.

Labour believes it can solve the waste management problem by bringing in fortnightly refuse collections.

Waste collections every 2 weeks are creeping in, council by council, across Wales. So under Labour, the bill to clear up fly tipping is creeping up, already costing taxpayers £2.5m every year and rising.

Poorly maintained drains and sewers, often blocked with street litter and rubbish, are increasing the risk of flooding people's homes and gardens.

Labour has failed to get to grips with anti-social behaviour, leaving our communities blighted by graffiti, dog fouling, littering, nuisance noise, and vandalism.

## 2008 can be a year of change

Welsh Conservatives believe in acting locally to protect our environment both at home and globally.

We will build on the example of Conservative-controlled Monmouthshire County Council which aims not just to meet but to exceed European waste recycling targets.

We will move from an over-reliance on landfill sites to more sustainable ways of dealing with waste.

Welsh Conservative Councillors support weekly bin collections of food waste.

We will help communities nominate areas of green space which will then be protected from development.

We will introduce local projects to tackle graffiti, litter, dog fouling and fly tipping, and work with the Assembly Government and others to minimise the risk of flooding.



# LOCAL SERVICES

## The Heart of our Communities

Post Offices, GP surgeries, the police and schools are lifeblood services that keep our communities alive and safe. Under Labour, they are disappearing.

Over a third of the Post Office network has closed or is earmarked for closure.

Local schools are being closed or, due to lack of investment, left to crumble.

Police morale is at rock bottom through endless form filling and Labour's betrayal over pay.

## 2008 could be a year of change

Welsh Conservatives will ensure essential local services are not lost forever. Our communities deserve better!

Welsh Conservatives believe in acting locally to deliver essential services, promoting a flexible system based on local needs.

Welsh Conservative Councillors will campaign to ensure as many local Post Offices as possible are kept open.

We will improve the quality of education, trusting our teachers and ensuring the necessary investment to protect our children's future.

We will champion our rural schools.

We will support the police by ending the form filling bureaucracy and ensuring Labour's betrayal over pay is not repeated.

Our Councillors will work with the police to tackle anti-social behaviour through our community safety initiatives.

We will support rural Wales by promoting Welsh produce wherever possible.









Ceidwadwyr Cymreig

# ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL

# MANIFFESTO

SAFFACH ▪ GWYRDDACH ▪ GLANACH ▪ SAFFACH ▪ GWYRDDACH ▪ GLANACH ▪ SAFFACH ▪ GWYRDDACH ▪ GLANACH

Hytwyddwyd gan Matt Lane ar ran Plaid Geidwadol Cymru, 4 Heol Penlline, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2XS
Argraffwyd gan Newport Printing Company Ltd, Esperanto Way, Orb Industrial Estate, Newport, South Wales NP19 0RD






# RHAGAIR

Nodau'r manifesto hwn yw amlinellu sut y bydd y Ceidwadwyr cymreig yn gwlela ansawdd bywyd, gwasanaethau lleol a'r amgylchedd yn ein cymunedau ledled Cymru. Mae ein polisïau ni yn cael eu gwneud yn ein cymunedau lleol, ar gyfer ein cymunedau lleol. Rydym yn cefnogi gwasanaethau lleol gwell, ysgolion lleol gwych mewn adeiladau modern sydd â chyfleusterau da, cymunedau mwy diogel, amgylcheddau lleol gwyrddach a glanach a threth y cyngor fforddiadwy.

Ein cyfrifoldeb ni yw gofalu am bobl– ein teuluoedd, ein henoed, a'n pobl sy'n agored i niwed, cefnogi ein gwarchodwyr nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi. Rhaid i'n gwasanaethau cymdeithasol fod yno i helpu teuluoedd pan fo'u hangen arnynt.

Bu blynyddoedd o ddiffyg buddsoddi o ran tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru. Mae tai yn hawl i bawb. Os ydym am adeiladu cymunedau cryf yna mae'n rhaid i ni ddarparu tai diogel, fforddiadwy.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn benderfynol o amddiffyn ein hamgylcheddau lleol.  Rydym yn cefnogi casglu biniau yn wythnosol a thargedau uchelgeisiol o ran ailgylchu. Mae cymunedau glân yn gymunedau diogel. Rydyn ni'n angerddol dros warchod ein hardaloedd gwyrdd.

Wrth galon pob cymuned sy'n ffynnu mae gwasanaethau lleol sy'n ffynnu – ein swyddfeydd post, meddygfeydd meddygon teulu ac ysgolion ardderchog. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ymladd i gadw ein gwasanaethau'n rhai lleol.

Mae pobl wedi blino ar dalu treth y cyngor uwch heb weld unrhyw fudd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymroddedig i ddarparu gwerth am arian. Fodd bynnag, mae adeiladu cymunedau cryf yn golygu gweithio gyda'n gilydd. Rhaid i ni wireddu ein cyfrifoldebau cymdeithasol os ydym am gyflawni dros Gymru.

Mae Llafur a Phlaid Cymru wedi siomi pawb yng Nghymru. Er gwaethaf miliynau o bunnoedd o arian treth y cyngor ymddengys mai ychydig sydd yn newid. Eu hateb i bopeth yw ateb gwladwriaethol – polisi un-maint-i-bawb. Nid oes angen i bethau fod fel hyn. Creda'r Ceidwadwyr Cymreig fod yr atebion yn ein cymunedau, ble mae pobl yn y sefyllfa orau i weld beth sy'n anghywir a gweithio i'w ddatrys.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn barod i wireddu eu cyfrifoldebau cymdeithasol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymgyrchu dros newid mewn awdurdodau lleol ledled Cymru.

Gall gweithio gyda'r Ceidwadwyr Cymreig adeiladu ein cymunedau.

Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid.

Saffach, glanach, gwyrddach – gyda'n gilydd.



SAFFACH ▪ GWYRDDACH ▪ GLANACH





Ceidwadwyr Cymreig

# SAFFACH, GWYRDDACH, GLANACH

Wrth wraidd ein hymgyrch llywodraeth leol eleni mae darparu gwasanaethau effeithlon, cost effeithiol a balchder yn ein cymunedau. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau gwella ansawdd bywyd i bawb ac mae gan gynghorau lleol rôl flaenllaw i'w chwarae wrth wneud hynny.

Ond pobl, nid llywodraethau, sydd â'r rôl fwyaf i'w chwarae. Credwn mewn cyfrifoldeb cymdeithasol, mewn ymddiried mewn pobl i wneud y peth cywir ac mewn rhoi rheolaeth iawn iddynt dros eu bywydau. Wedi degawd o reoli canolog o'r brig i lawr gan y Blaid Lafur, mae'n amser sylweddoli mai'r unig ffordd i ni fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol mawr sy'n ein hwynebu yw drwy gael pobl i gymryd balchder yn eu cymunedau lleol a chyfrifoldeb drostynt - gan chwarae rhan weithgar wrth ei wneud yn lle gwell i fyw.

Rhaid i bob un ohonom ym mhob cymuned yng Nghymru ofyn y cwestiwn

'Beth mae Llafur erioed wedi'i wneud i ni?'

Gall y Ceidwadwyr Cymreig ddweud wrthoch chi -

- codi treth y cyngor
- torri gwasanaethau lleol
- cau ysgolion
- gadael i ystafelloedd dosbarth ddirywio

Mae Llafur wedi ein siomi ni i gyd yng Nghymru.

Maent wedi ein dal yn ôl ac wedi ein cymryd yn ganiataol.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Ar Fai y cyntaf, bydd gan bobl gyfle i bleidleisio dros newid ac i wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd eu bywydau.

Mae neges y Blaid Geidwadol Gymreig yn syml:

Gadewch i ni adeiladu Cymunedau Saffach, Gwyrddach a Glanach gyda'n gilydd.



# GWERTH AM ARIAN

## Treth y Cyngor

Mae Llafur wedi tanseilio ymddiriedaeth y wlad yn Nhreth y Cyngor. Dyma ddull mwyaf cyfrwys y Llywodraeth Lafur o'n trethu ni.

Mae'r cartref nodweddiadol bellach yn talu £500 y flwyddyn yn fwy o Dreth y Cyngor na 10 mlynedd yn ôl.

Gwnaeth Llafur lanast wrth ailbrisio Treth y Cyngor ac mae hynny wedi codi ein biliau i'r entrychion.

Pensiynwyr a theuluoedd ar incwm isel neu sefydlog sydd wedi'u bwrw galetaf.

Oherwydd trefniant cyllido arswydus Llywodraeth Cynulliad Cymru Llafur/Plaid, rhaid i awdurdodau lleol ddewis rhwng codi Treth y Cyngor yn sylweddol neu dorri gwasanaethau lleol. Yn rhy aml maent yn dewis y ddau.

Wedi 10 mlynedd o weld Treth y Cyngor yn codi cymaint, mae pobl yn gofyn: "I ble mae ein harian i gyd wedi mynd?"

Mae Cynghorau Llafur yn costio mwy i chi .... Mae'r Ceidwadwyr yn rhedeg cynghorau mwy effeithlon.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn dod â thegwch i system Treth y Cyngor eto.

Byddwn yn ymgyrchu dros Lywodraeth Cynulliad Ceidwadwyr Cymru yn y dyfodol a fydd yn adfer Treth y Cyngor i lefelau cynaliadwy drwy gefnogaeth ariannol briodol i awdurdodau lleol.

Byddwn yn sicrhau y bydd gan Gynghorau'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau lleol effeithiol, effeithlon heb fod angen gwneud toriadau neu godi Treth y Cyngor yn sylweddol ar deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth iawn i bensiynwyr a theuluoedd ar incwm isel neu sefydlog.

Bydd Cynghorwyr Ceidwadol Cymreig yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Ceidwadwyr Cymreig y dyfodol i roi £100 o ostyngiad Treth y Cyngor i bob cartref lle mae pensiynwr.

SAFFACH ▪ GWYRDDACH ▪ GLANACH



# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## Cefnogi pobl

O dan Llafur, bu gwasanaethau cyhoeddus yn llwgu oherwydd diffyg adnoddau.

Golyga toriadau yn y gyllideb fod Cynghorau'n gorfod torri gwasanaethau. Mae hyn yn achosi niwed i bobl sy'n agored i niwed, ac mae'n tanseilio ysbryd a pherfformiad staff.

Drwy gael gwared ar ddewis, gorfododd Llafur ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd i gyfundrefnau anhyblyg gan gyfyngu ar eu hannibyniaeth a chynnig gwerth gwael am arian.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynnig gwell gwerth am arian.

Byddwn yn hybu annibyniaeth a dewis. Dylai pobl gael rheolaeth dros ble a sut maent yn byw a chael cefnogaeth yn ôl eu hanghenion.

Byddwn yn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac yn sicrhau bod eu teuluoedd yn cael cefnogaeth pan fo'i hangen.

Byddwn yn cefnogi gwarchodwyr ac yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu am eu hanwyliaid.



# TAI – HAWL I BAWB

## Pobl a Lleoedd

Mae Llafur wedi methu'n gyson â buddsoddi digon o arian mewn tai cymdeithasol a fforddiadwy.

Mae'r arian a fuddsoddwyd, mewn termau real, yn is nag o dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf - ystyrir fod dros 18% o bob cartref yn y sector breifat yn anghymwys ac o dan Safon Ansawdd y Cynulliad.

Torrodd Llafur y cyllid i dai cymdeithasol yn sylweddol, gan arwain at ddiffyg tai fforddiadwy mewn sawl rhan o Gymru – Ers 1996 dim ond 10, 8181 o gartrefi sydd wedi'u hadeiladu yn y sector tai cymdeithasol.

Mae Pecynnau Gwybodaeth Tai Llafur wedi gwthio'r gost o symud tŷ i fyny, tra mae cynnydd pris anghynaladwy yn rhwystro nifer o bobl ifanc a theuluoedd rhag dechrau dringo'r ysgol eiddo – ym mis Tachwedd 2007 £144,895 oedd pris cyfartalog tŷ yng Nghymru, cynnydd enfawr o £80,000 neu 60% mewn saith mlynedd yn unig.

O dan Llafur mae llai o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu tra mae methiant y Llywodraeth i ymdrin â'r lefelau uchel o ddigartrefedd yn gywilydd gwlad – yn 2006-07 derbyniodd awdurdodau lleol dros 6,800 aelwyd fel rhai digartref.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Bydd Cynghorwyr y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau bod y sgandal ynghylch tai cymdeithasol sy'n aros yn wag yn dod i ben.

Byddwn yn gweithio gyda Chynghorau i sicrhau bod ganddynt hyblygrwydd o ran cynllunio er mwyn rhyddhau rhagor o dir addas ar gyfer datblygiadau tai.

Byddwn yn caniatáu i gymunedau adeiladu tai newydd yn ôl anghenion lleol ac yn darparu mwy o arian ar gyfer prosiectau tai cymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod pob prosiect tai cymdeithasol newydd yn ecogyfeillgar.



# PLEIDLEISIWCH YN LAS, BYDD YN WYRDD

## Ein hamgylchedd

Mae’r amgylchedd yng Nghymru wedi dioddef wedi deg blynedd o esgeulustod o dan Llafur. Mae eu hagwedd at fynd i’r afael â Newid yn yr Hinsawdd, yr her fwyaf sy’n effeithio arnom i gyd, wedi bod yn rhyfeddol.

Mae ein record o ran ailgylchu gyda’r gwaethaf yn Ewrop ac mae Llafur wedi dangos eu diogi yn y ffordd y maent yn mynd i’r afael â gwaredu gwastraff yng Nghymru.

Cred Llafur y gall ddatrys y broblem rheoli gwastraff drwy gyflwyno casgliadau sbwriel bob pythefnos.

Mae casgliadau bob pythefnos yn dechrau ymddangos Cyngor wrth Gyngor, ar draws Cymru. Felly o dan Llafur, mae’r bil i gael gwared ar dipio anghyfreithlon yn cynyddu’n araf deg, gan gostio £2.5m i’r trethdalwyr bob blwyddyn yn barod, ac mae’n dal i godi.

Mae cwteri a charthffosydd sydd heb eu cynnal yn dda, ac sy’n aml wedi’u blocio gan sbwriel stryd, yn cynyddu’r risg o orlifo i gartrefi a gerddi pobl.

Mae Llafur wedi methu mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan adael ein cymunedau wedi’u difetha gan graffiti, baw cŵn, sbwriel, poendod sŵn a fandaliaeth.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Cred y Ceidwadwyr Cymreig mewn gweithredu’n lleol er mwyn amddiffyn ein hamgylchedd gartref ac yn fyd-eang.

Byddwn yn adeiladu ar esiampl Cyngor Sir Ceidwadol Sir Fynwy sy’n bwriadu nid yn unig cyrraedd y targedau ailgylchu gwastraff Ewropeaidd ond rhagori arnynt hefyd.

Byddwn yn newid o’r orddibyniaeth ar safleoedd tirlenwi i ffyrdd mwy cynaliadwy o ddelio â gwastraff.

Mae Cynghorwyr y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi casglu biniau sbwriel bob wythnos.

Byddwn yn cynorthwyo cymunedau i enwebu ardaloedd gwyrdd a fydd wedyn yn cael eu gwarchod rhag datblygu.

Byddwn yn cyflwyno prosiectau lleol i fynd i’r afael â graffiti, sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon, a gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i ostwng risg gorlifo i’r eithaf.




# GWASANAETHAU LLEOL

## Calon ein Cymunedau

Mae Swyddfeydd Post, meddygfeydd meddygon teulu, yr heddlu a'r ysgolion yn wasanaethau hanfodol sy'n cadw ein cymunedau'n fyw ac yn ddiogel. O dan Llafur, maent yn diflannu:

Mae mwy na thraean o'r rhwydwaith Swyddfeydd Post wedi cau neu wedi'i glustnodi i gael ei gau.

Mae ysgolion lleol yn cau neu, o achos diffyg buddsoddi, yn cael eu gadael i ddirywio.

Mae ysbryd yr heddlu ar ei isaf oherwydd eu bod yn llenwi ffurflenni'n ddi-ben-draw ac oherwydd i Llafur eu bradychu dros eu tâl.

## Gall 2008 fod yn flwyddyn o newid

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau nad yw gwasanaethau lleol hanfodol yn cael eu colli am byth. Mae'n cymunedau'n haeddu gwell!

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn gweithredu'n lleol i ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan hybu system hyblyg wedi'i selio ar anghenion lleol.

Bydd Cynghorwyr y Ceidwadwyr Cymreig yn ymgyrchu i sicrhau bod cymaint o swyddfeydd post ag sy'n bosib yn cael eu cadw ar agor.

Byddwn yn gwella safon addysg, gan ymddiried yn ein hathrawon a sicrhau'r buddsoddiadau angenrheidiol er mwyn diogelu dyfodol ein plant.

Byddwn yn codi llais ar ran ein hysgolion gwledig.

Byddwn yn cefnogi'r heddlu drwy ddod â biwrcoratiaeth i ben a sicrhau nad yw brad Llafur dros dâl yn cael ei ailadrodd.

Bydd ein cynghorwyr yn gweithio gyda'r heddlu er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ein mentrau diogelwch cymunedol.

Byddwn yn cefnogi cefn gwlad Cymru drwy hybu cynnyrch Cymru pryd bynnag fo'n bosib.

**Y Ceidwadwyr Cymreig**

**Adeiladu Cymunedau Cryfach Gyda'n Gilydd**